LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Bywgraffiadur i blant: John Charles

Addasiad o erthygl Bywgraffiadur Yr Athro Geraint H. Jenkins

Enw:	John Charles
Dyddiad a man geni:	27 Rhagfyr 1931, Abertawe, De Cymru
Dyddiad marw:	21 Chwefror 2004
Pam fod y person yn enwog:	Pêl-droediwr oedd John Charles a chwaraeodd i Leeds United, Juventus a Chymru. Yn ôl rhai, ef oedd un o'r pêl-droedwyr gorau i'w fagu yng Nghymru yn yr ugeinfed ganrif.
Uchafbwyntiau:	• 1931: Ganwyd John Charles yn 19 Stryd Alice, Cwmbwrla, Abertawe • 1945: Gadael ysgol yn 14 oed ac ymuno â chlwb pêl-droed Abertawe. • 1948: Ymunodd â chlwb Leeds United yn 17 mlwydd oed. Sgoriodd 150 o goliau mewn 9 tymor. • 1950: Chwarae i Gymru am y tro cyntaf. • 1957: Ymunodd â chlwb Juventus o'r Eidal am record Prydeinig o £65,000. • 1958: Cyrraedd rownd chwarter-derfynol gyda Cymru yng Nghwpan y Byd. • 1959: Daeth yn drydydd yn y Ballon d'Or. • 1962: Gadael Juventus fel arwr. Sgoriodd 108 o goliau mewn 155 o gemau. • 1962: Chwaraeodd i Leeds a Roma a Chaerdydd dros 4 blynedd. • 2004: Marw yn ysbyty Pinderfields, Wakefield.
Dyfyniad:	"Roedd John Charles yn bêl-droediwr rhyfeddol o ddawnus. Roedd ganddo gorff grymus dros ben. Safai 6' 2" a phwysai 14 stôn. Gallai gicio pêl yn nerthol a chywir â'i ddwy droed, driblo'n dwyllodrus, neidio fel eog a thaclo'n rymus. Trwy gydol ei yrfa lachar ni chafodd gerdyn melyn na cherdyn coch, caiff ei adnabod gan bawb fel 'Y Cawr Addfwyn' (Il Buon Gigante)." **Yr Athro Geraint Jenkins**
Lluniau:	Ffotograff: Geoff Charles
Wicipedia:	https://cy.wikipedia.org/wiki/John_Charles